



YSGOL HAFAN Y MÔR
Heywood Lane,
Dinbych y Pysgod/ Tenby,
SA70 8BZ
☎ 01834-843248

✉ admin.ysgolhafanymor@pembrokeshire.gov.uk

23.07.2020

Annwyl rieni, gofalwyr a llywodraethwyr

Diolch

Hoffwn ddiolch i'r holl rieni a gofalwyr am gefnogi eu plant drwy'r cyfnod anodd a heriol hwn a chyda'r tasgau dysgu ar-lein. Rwy'n diolch ac yn llongyfarch y plant am eu dyfalbarhad a'u hymrwymiad i ddysgu ar-lein, rwy'n gwybod nad yw wedi bod yn hawdd a'u bod wedi gweld eisiau'r drefn o ddod i'r ysgol a gweld eu ffrindiau a'r staff. Estynnir fy niolch hefyd i'r llywodraethwyr am eu cefnogaeth i mi fel pennaeth ac am eu hamser i fynychu cyfarfodydd ar-lein a sicrhau bod yr holl ddogfennau a gweithdrefnau yn addas i'r diben.

Yn olaf, diolchaf i'r holl staff am eu cefnogaeth, eu hawydd i sicrhau cysondeb rhwng yr ysgol a'r cartref, ymrwymiad i les ei gilydd a'r disgyblion. Y gefnogaeth hefyd tuag at ganolfannau gofal plant i deuluoedd gweithwyr allweddol yn ystod y cyfnod clo yn Ninbych-y-Pysgod a Crymych. Yn ogystal, hoffwn ddiolch hefyd i'r staff addysgu a chymorth am eu hymdrechion anhygoel wrth barhau i ddarparu tasgau llythrennedd a mathemateg dyddiol i bob plentyn, gweithgareddau thematig i ehangu dysgu'r plant, adnoddau darllen a rhestrau sillafu pwrpasol, y galwadau ffôn ' cadw mewn cysylltiad ', e-bost a chymorth dros y ffôn ac adborth cyson ar bob tasg a mynychu'r cyfarfodydd staff ar-lein wythnosol.

Bu'n flwyddyn ryfeddol i ddweud y lleiaf, yn llawn helyntion a llawer o heriau newydd i'w goresgyn fodd bynnag, gyda'n gilydd yr ydym yn gryfach a chyda'n gilydd byddwn yn llwyddo - **'Mewn undod y mae nerth'**.

Ffarwelio

Yn dilyn ein diwrnod hwyl ddoe ar gyfer disgyblion blwyddyn 6, hoffwn ddymuno pob lwc iddynt yn y bennod newydd a chyffrous nesaf o'u bywydau. Cofiwch am yr hyn rydych wedi'i ddysgu yn ysgol Hafan y Môr, byddwch yn garedig, parhewch i wenu a'ch nod bob amser yw *cyflawni'r gorau ym mhopeth a wnewch*.

Byddwn hefyd yn ffarwelio â Miss Sara Williams, sydd wedi bod yn aelod ymroddedig o'r tîm staff cymorth yn y dosbarth Derbyn. Dymunwn y gorau iddi wrth iddi ddechrau ar ei gradd TAR (hyfforddiant athrawon) ym mis Medi - pob lwc i ti Miss Williams!

Trefniadau mis Medi

Fel y gwyddoch, yn dilyn cyhoeddiad Gweinidog Addysg Cymru, Kirsty Williams ar Orffennaf 9fed 2020, bydd pob dysgwr yn gallu dychwelyd i ysgolion yn nhymor yr Hydref. Byddwn yn parhau i ddilyn llawer o'r gweithdrefnau a'r gweithdrefnau sydd eisoes wedi cael eu sefydlu a'u gweithredu yn ystod y sesiynau 4 wythnos 'Ailgydio, Dal I Fyng a Pharatoi'.

Lles a diogelwch pawb sydd wedi bod wrth galon yr holl gynllunio.

Beth bynnag fo'r amgylchiadau, ni ddylai dysgwyr ddod i'r ysgol os ydynt yn teimlo'n sâl, os oes ganddynt unrhyw un o'r tri symptom Covid-19 (**peswch cyson, tymheredd uchel neu methu aroglu neu flas**) neu os ydynt wedi cael canlyniad positif am Covid-19 yn ystod y 14 diwrnod diwethaf, byw gyda rhywun sydd â symptomau Covid neu fyw gyda rhywun sydd wedi canlyniad positif am Covid-19 yn ystod y 14 diwrnod diwethaf.

Yr wyf yn hyderus ein bod wedi sicrhau hyd eithaf ein gallu fod eich plentyn yn medru dychwelyd i'r ysgol yn ddiogel. Mae gennym fesurau helaeth mewn lle a fydd yn eu diogelu hwy a'r staff.

Everyone's wellbeing and safety has been at the heart of all planning.

Under no circumstances, should learners come to school if they feel unwell, if they have any of the three Covid-19 symptoms (***constant cough, high temperature or failure of smell or taste***) or if they have had a positive result for Covid-19 in the last 14 days, live with someone who has Covid-19 or is living with a person who has had a positive result for Covid-19 in the last 14 days.

I am confident that we have ensured, to the best of our ability that your child can return to school safely. We have extensive measures in place that will protect them and the staff. Edrychwn ymlaen at groesawu ein holl ddisgyblion yn ôl i'r ysgol ym mis Medi. Er na cheir unrhyw gosbau ar y dechrau oherwydd nad yw eich plentyn yn dychwelyd i'r ysgol, caiff y sefyllfa ei monitro'n ofalus gan yr awdurdod lleol a Llywodraeth Cymru yn ystod yr hanner tymor cyntaf ac mae canllawiau LIC yn datgan yn glir: "***rhaid i bob dysgwr o oedran ysgol statudol fod yn yr ysgol oni bai bod rheswm statudol yn berthnasol neu fod tystiolaeth feddygol yn cael ei darparu (e.e. Nid yw'r dysgwr yn medru myncyhu'r ysgol oherwydd salwch).***" **Ni fydd** dysgu ar-lein yn cael ei ddarparu i ddysgwyr os yw rhiant yn **dewis** cadw eu plentyn adref.

Trefniadau ar gyfer dychwelyd ym mis Medi 2020

1^{af} & 2^{il} Medi - Diwrnodau cynllunio a pharatoi (Ysgol ar gau i blant)

3^{ydd} Medi - Pob disgybl oed statudol (dosbarth derbyn - Bl.6) a **phlant meithrin oedd eisoes wedi dechrau yn yr ysgol yn Ionawr 2020** i dychwelyd. Bydd hwn yn cael ei ddynodi'n ddiwrnod pontio. Bydd y disgyblion yn treulio'r bore yn eu dosbarth blaenorol yn ystod sesiwn y bore ac yn symud i'w dosbarth newydd yn y prynhawn.

4^{ydd} Medi - POB disgybl i dychwelyd a dechrau mewn dosbarthiadau newydd ar gyfer y diwrnod. **Plant meithrin, Ionawr ac Ebrill yn cymryd eu lle i fynychu sesiwn y bore a phlant meithrin, mis Medi i fynd i sesiwn y prynhawn.**

Rhaid i chi gyrraedd a chasglu ar yr amseroedd a nodir isod. * Nodwch - Mae'n bwysig iawn eich bod yn cyrraedd/casglu ar amser i sicrhau ein bod yn diogelu iechyd, diogelwch a lles pawb hyd eithaf ein gallu.

Amseroedd dechrau'r ysgol

Nodwch yr amseroedd canlynol ar gyfer dod â'ch plentyn i'r ysgol;

Bl.1, 3, 4, 5, 6, 2: 8.40-8.50yb

Cylch Meithrin Tonnau Bach a Derbyn: 8.45 - 8.55yb

Meithrin *Sesiwn bore - Plant hŷn (y Nadolig yn y Pasg 2020): 8.55 - 9.05yb a chasglu am 11.50yb.

Meithrin * Sesiwn prynhawn - Plant iau (Medi 2020): 12.55 - 1.05yp

Amseroedd gorffen yr ysgol

Nodwch yr amseroedd canlynol ar gyfercasglu eich plentyn o'r ysgol

Meithrin * Sesiwn prynhawn - Plant iau (Medi 2020): 2.55 - 3yp

Cylch Meithrin Tonnau Bach a Derbyn: 3.00 - 3.05yp

Bl.1, 3, 4, 5, 6, 2: 3.05-3.15 yp

Trefniant dydd - gywbodaeth i ddisgyblion:

- 1) Sefwch ar y smotyn glas ar bwys eich ystafell dosbarth tan bod eich athro/athrawes yn eich galw mewn i'r dosbarth (*Gallwch weld sut i wneud hyn trwy wyllo'r fideos danfonais atoch ar 21.6.2020 trwy ParentMail*)
- 2) Wrth fynd mewn i'r dosbarth bydd angen golchi / diheintio eich dwylo.
- 3) Byddwch yn aros yn eich '**Swigod**' (bubbles) dosbarth am y dydd. Os ydych yn nosbarth Sêr y Môr (Derbyn), Cregyn (Bl 1) ac Ynys Bŷr (Bl 2), byddwch yn bwyta eich cinio yn eich swigod dosbarth yn y neuadd. Os ydych chi ym ml 3 - 6 dosbarth Harbwr, Cestyll tywod neu Cychod, byddwch yn bwyta eich cinio yn eich dosbarth. Ar ôl cinio, byddwch chi'n mynd allan i chwarae yn eich grwpiau dosbarth mewn ardaloedd dynodedig ar yr iard/cae'r ysgol.
- 4) Pan fydd hi'n amser i fynd adref, mi fydd eich rhiant yn dilyn y cyfarwyddiadau un ffordd, sefyll ar y smotyn glas ar bwys eich dosbarth ac yn aros. Bydd eich athro/ athrawes yn gadael i chi fynd at eich rhiant yn eich tro. Bydd angen i chi ddilyn y saethau gwyn un ffordd i adael yr ysgol. (*Gallwch weld sut i wneud hyn trwy wyllo'r fideos danfonais atoch ar 21.6.2020 trwy ParentMail*)

Trefniadau dosbarth

Dosbarth / Class	Blwyddyn Ysgol / Year Groups	Staff
Cylch Meithrin Tonnau Bach	Gofal Cofleidiol + plant 2oed / Wrap Around Provision + 2yr old provision	Miss Angharad Davies Mrs Emma Rossiter Miss Tyler Tszura
1 - Pysgod Chwim	Meithrin rhan amser / Part-time Nursery *Sesiwn bore - Plant hŷn (Nadolig a Phasg 2020) + *Sesiwn prynhawn - Plant iau (Medi 2020)	Ms Sian Slack Miss Lowri Morgan
2 - Sêr y Môr	Derbyn / Reception	Mrs Sue Phillips Nia Currado Miss Lowri Slack Mrs Lisbeth Callegari
3 - Cregyn	Blwyddyn 1 / Year 1	Mrs Mags Lewis Miss Sian Morgan
4 - Ynys Bŷr	Blwyddyn 2 / Year 2	Mrs Sioned King Miss Hayley Davies
5 - Yr Harbwr	Blwyddyn 3 / Year 3	Mr Dylan Hughes Mrs Eleri Gill
6 - Cestyll Tywod	Blwyddyn 4 / Year 4	Miss Lowri Jones Mrs Jenna Swenson
7 - Cychod	Blwyddyn 5+6 / Year 5+6	Mr Jonathan Thomas Miss Jess Prince

Apwyntiadau staff

Ar hyn o bryd mae gennym hysbyseb ar gyfer cynorthwydd cymorth dysgu ychwanegol. Byddaf yn eich hysbysu am yr aelod newydd o staff yn dilyn y broses benodi.

Golchi Dwylo

Bydd disgyblion yn dilyn amserlen benodol o ran golchi dwylo a diheintio yn gyson yn ystod y dydd. Bydd gorsaf diheintio wedi ei lleoli ym mhob ystafell ddosbarth ac mewn lleoliadau ar draws yr ysgol.

Gwisg Ysgol

Pob disgybl i wisgo gwisg ysgol briodol yn unol â pholisi'r ysgol ym mis Medi 2020.

<http://ysgolhafanymor.ysgolccc.cymru/media/65477/Polisi-Gwisg-Ysgol.pdf>

Clwb Brecwast a Chlwb Hwyl (Clwb ar ôl ysgol)

Caeodd yr holiadur 'forms' am 5pm heddiw i archebu lle. Mae'r niferoedd sy'n manteisio ar glwb brecwast a chlwb Hwyl (Clwb ar ôl ysgol) yn **eithriadol** o uchel. Bydd plant sy'n mynychu'r clybiau yn aros mewn grwpiau teuluol lle bo'n bosibl. Ni fydd yn bosibl cadw plant yn eu swigod dosbarth ar gyfer y naill glwb na'r llall. Os **nad oes** angen un o'r ddarpariaethau arnoch am unrhyw reswm, rhowch wybod i ni cyn gynted â phosibl.

Gwisg Addysg Gorfforol

Ar y diwrnod y mae gan eich plentyn gwers Addysg Gorfforol, **gofynnwn i'ch plentyn wisgo ei wisg i'r ysgol am y diwrnod cyfan (sicrhewch ei fod yn gwisgo cit addysg gorfforol yr ysgol ynghyd ag esgidiau priodol)**. Mae hyn er mwyn atal yr angen i newid (*lleihau risg croeshalogi*) ac oherwydd fel ysgol, teimlwn fod yr ystafelloedd newid yn rhy gyfyng ar hyn o bryd. Cofiwch hefyd anfon côt i'ch plentyn os oes angen.

Diwrnodau Addysg Gorfforol

Bl. 2 - 6: **Dydd Llun**

Bl.1, Derbyn a Meithrin - **gwybodaeth i'w dilyn ym mis Medi**.

Teganau a chyfarpar o adref

Gofynnwn yn garedig i blant **beidio dod ag unrhyw deganau** i'r ysgol. Dim ond y swm lleiaf o eitemau sy'n ofynnol y dylent ei ddwyn; cofnod darllen/côt/het haul/potel ddŵr/byrbryd/ pecyn bwyd *os oes angen*. Bydd pob eitem arall yn cael ei chyflenwi yn yr ysgol, felly **ni fydd angen bag mawr**. Bydd hyn yn lleihau'r perygl o groeshalogi a lleihau'r risg i bawb.

Dysgu adref a llyfrau darllen

Byddwn yn parhau i ddarparu tasgau dysgu adref ar gyfer y penwythnos yng nghyfrif hwb eich plentyn (bl. 1-6). Bydd gan eich plentyn gofnod darllen a fydd yn cael ei anfon adref yn ddyddiol. Bydd hyn yn nodi'r llyfr y mae eich plentyn yn ei ddarllen ond ni fydd y llyfr darllen yn cael ei anfon adref gan fod yr holl lyfrau yn y cyfresi darllen ar gael trwy'r **llyfrgell ar-lein yng nghyfrif hwb eich plentyn**. Yr unig adeg y bydd eich plentyn yn mynd â llyfr darllen adref yw **os nad** yw'n darllen llyfr o'r cyfresi darllen sydd yn y llyfrgell ar lein. Bydd y mesurau hyn yn sicrhau nad oes unrhyw lyfrau diangen yn cael eu trosglwyddo rhwng y cartref a'r ysgol unwaith eto, gan leihau'r risg o groeshalogi a lleihau'r risg i bawb a sicrhau ein bod yn cadw ein stoc sy'n disbyddu o lyfrau darllen yn yr ysgol. **Os oes gennych unrhyw lyfrau darllen ysgol adref**, byddem yn ddiolchgar pe gallech eu dychwelyd gan fod ein stociau'n isel iawn.

Poteli dŵr a byrbrydau

Bydd angen i'ch plentyn ddod â photel dŵr a byrbryd **iach** i'r ysgol yn ddyddiol gyda'i enw wedi ysgrifennu'n glir ar y botel a'r twb byrbrydau/cynhwysydd plastig. Nodwch, oherwydd y sefyllfa bresennol, na fydd unrhyw siop ffrwythau ar gael.

Trefniadau cinio

Bydd plant yn y dosbarth Derbyn, Bl 1 a 2 yn bwyta ar adegau gwahanol yn y neuadd a bydd disgyblion Bl.3 - 6 yn bwyta yn eu hystafelloedd dosbarth. Mae hyn er mwyn sicrhau ein bod yn parhau i leihau llif y traffig yn y manau cylchrediad ac i leihau'r posibilrwydd o groeshalogi swigod dosbarth. Os nad yw eich plentyn yn cael cinio ysgol bydd angen bocs bwyd plastig arno gyda bloc oer y tu mewn iddo. Rhaid i enw eich plentyn gael ei ysgrifennu'n glir ar y bocs bwyd a'r bloc oer.

Arian cinio

Nodwch ar 1 Medi 2020 bydd yr arian cinio yn cynyddu i'r canlynol bob dydd;

Cinio plant iau (Meithrin - Bl.2) £2.55

Cinio plant hŷn (Bl.3 - 6) £2.65

Os ydych yn credu y gallech fod yn gymwys i'ch plentyn/plant i gael prydau ysgol am ddim, casglwch ffurflen o'r dderbynfa.

Amser chwarae

Lle bo modd, bydd plant yn chwarae yn eu swigod dosbarth eto, mae hyn er mwyn lleihau'r posibilrwydd o groeshalogi.

System apwyntiadau

Er ein bod yn ymfalchio yn ein polisi drws agored, oherwydd y pryderon presennol ynghylch trawsheintio a lleihau'r risg i bawb, gofynnwn yn garedig i riant/gofalwr sydd angen siarad ag aelod o staff i ffonio'r ysgol; 01834 843248 neu e-bostio'r ysgol; admin.ysgolhafanymor@pembrokeshire.gov.uk i wneud apwyntiad ar gyfer cyfarfod ffôn/sgwrs ar amser sy'n gyfleus i'r ddwy ochr. Yn anffodus, ni ellir cynnal unrhyw gyfarfodydd wyneb yn wyneb.

Gwybodaeth am ddyddiadau gwyliau a diwrnodau HMS (diwrnodau cau'r ysgol)

Sylwch fod y rhain wedi'u diweddarau a'u bod ar galendr gwefan yr ysgol

<http://ysgolhafanymor.cymru/home/calendar/>

Diwrnodau Cynllunio a pharatoi (ysgol ar gau i blant)	01 & 02.09.2020
Hanner tymor	19 - 31.10.2020
Gwyliau'r Nadolig	21.12.2020 - 01.01.2021
HMS (ysgol ar gau i blant)	04.01.2021
HMS (ysgol ar gau i blant)	26.01.2021
Hanner tymor	15 - 19.02.2021
Gwyliau'r Pasg	29.03 - 09.04.2021
HMS (ysgol ar gau i blant)	12.04.2021
HMS (ysgol ar gau i blant)	28.05.2021
Hanner tymor	31.05 - 04.06.2021
HMS (ysgol ar gau i blant)	19 & 20.07.2021

Gwyliau hapus i bawb ac edrychwn ymlaen at gyfarfod eto ym mis Medi.

Diolch i chi gyd unwaith eto - rhieni, plant, staff, llywodraethwyr a chyfeillion yr ysgol am eich cefnogaeth a'ch cydweithrediad.

Dymuniadau gorau

Y Griffiths

Mrs Griffiths
Pennaeth